

Cofion

- Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth y Parch. Meurig Dodd y penwythnos diwethaf. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Gwenan a gweddill y teulu, a chyflwynwn hwy i ofal a thangnefedd yr Arglwydd. Rydym yn canmol Duw am weinidogaeth Meurig yn ein plith a byddwn yn ei gofio fel un oedd bob amser yn pregethu gydag arddeliad. Mae geiriau'r emyn hwn yn crynhoi:

“...gwisg hwynt â nerth yr Ysbryd Glân,
a'th air o'u mewn fo megis tân.” (CFF243)

- Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd â Meirick Ll. Davies (Cefn Meiriadog) yn ei brofedigaeth o golli ei chwaer wen – Gwen Britain. Cyflwynwn ef a gweddill y teulu i ofal yr Arglwydd gan hyderu y cânt adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt. Mae eraill o'n plith yn galaru am anwyliaid hefyd a gweddiwn y byddant hwythau yn profi Duw yn ddigon y dyddiau hyn.
- Anfonwn ein cofion at Kate Davies (Llansannan) sy'n parhau i gael gofal yn yr Inffirmari, ac Elwy Owen (Llanefydd) sydd bellach wedi symud i Ysbyty Rhuthun. Mae'n dda cael adrodd fod Gwenfyl Williams (Tanyfron) wedi dod adre yn dilyn treulio rhai wythnosau yn yr ysbyty. Diolchwn am y gofal y mae'r holl gleifion yn ei dderbyn a dymunwn adferiad iechyd buan i bob un ohonynt.

I ddo

- **NOSON SWPER A SGWRS GŴYL DDEWI** Cymdeithas Llanefydd nos Fercher, Mawrth 2il. Mwy o fanylion i ddilyn.
- **SWPER GŴYL DDEWI CYMDEITHAS LLANSANNAN** yn y Ffestri nos Wener, Mawrth 4ydd am 7.00. Yn dilyn y swper, bydd adloniant gan Mali Elwy. Enwau i Bethan Batty (870374) erbyn dydd Sul, Chwefror 28ain, os gwelwch yn dda.
- **CYFARFOD CHWIORYDD BRO ALED** yng Nghapel Henllan nos Fercher, Mawrth 23ain am 7.30 yng nghwmni Mrs Carys Davies, Cydlynnydd Rhaglen Dorcas yn y Gogledd.
- **LLANW** – Mae'r ŵyl Gristnogol hon yn cael ei chynnal yng Nghricieth eto eleni a hynny rhwng Mawrth 28ain – Ebrill 1af. Mae taflenni gwybodaeth ar gael – holwch Mair am gopi neu ewch i'r wefan: www.llanw.org
- **FFILMIO? DIM CLEM!** Diwrnod gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru i'r sawl dy'n ddi-blem am ffilmio! Bydd cyfle i ddysgu sut i greu a golygu ffilm ddigidol ar eich camera rhad/drud neu ffôn yng Nghapel Caersalem, Caernarfon LL55 2RB dydd Sadwrn, Ebrill gfed o 10.00 tan 4.00. Cost: £5.00. Dewch a'ch cinio efo chi. Paneidiau ar gael trwy'r dydd! Am ffurflen gais, ffoniwch 01758 770490 neu ebostiwch gwyn@ebcpcw.org.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 21^{ain} Chwefror 2016

Darlleniad y Dydd

Mathew 22:41-46

(BCND tud.27 / BCN tud.25)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Mae trafodaethau pwysig ar y gweill yn Ewrop ar hyn o bryd a fydd yn llywio'n barn ynglŷn â sut i bleidleisio yn y refferendwm sydd i ddod cyn hir. Mewn neu mas – dyna fydd y cwestiwn i ni fel poblogaeth. Cwestiwn syml iawn ond fe fydd y dadleuon o blaid ac yn erbyn yn gymhleth ac fe fydd llawer un yn ceisio'n perswadio ar sawl lefel. Diau y bydd rhai yn defnyddio dadleuon economaidd, dadleuon emosiynol ar sail rhagfarn, eraill o blaid gweledigaeth fawr ynglŷn â dyfodol Ewrop a rhai wedyn o blaid meithrin perthynas masnachol newydd hefo economïau newydd India a China a symud oddi wrth ein dibyniaeth ar Ewrop. Cwestiwn syml – ond mae dod i benderfyniad yn gymhleth a dweud y lleiaf!

Heno byddwn yn edrych ar hanes Josua yn arwain y genedl i mewn i wlad yr Addewid. Roedd yna benderfyniadau mawr i'w gwneud yr adeg hynny hefyd. Ond yn y bôn yr un cwestiwn – i mewn, neu mas! Roedd storïau brawychus yn dod yn ôl gan yr ysbïwyr am natur y wlad a'i phobl, ond roedd eraill yn dweud am y manteision tymor hir – a bod adnoddau'r wlad newydd yn eithriadol. Wedi'r cyfan – gwlad yn llifeirio o laeth a mêl oedd hi! Mae Josua wedi dod i benderfyniad, ac wrth wneud ei benderfyniad yn gyhoeddus fel arweinydd o flaen y bobl, mae Josua yn gosod ger eu bron ei resymau a'i argyhoeddiad personol. Mae yna un ffactor pwysig sydd yn ei yrru ymlaen, sef ei ymddiriedaeth yng nghynllun Duw ar gyfer y genedl ifanc a oedd dan ei ofal. Roedd o'n gweld mai dyma oedd bwriad Duw iddyn nhw feddiannu'r wlad yn ei nerth o gan y byddai Duw gyda nhw a gan mai Duw sy'n ffyddlon i'w Air ydi Duw. (Deuteronomium 31:7-8)

Roedd Josua, wrth ddatgan ei ffydd, yn gwneud hynny ar sail ei gred y byddai Duw yn ffyddlon iddo'i hun yn bennaf. Dyma eiriau'r cyfamod a wnaeth Duw hefo Israel a oedd yn canu yng nghalon Josua wrth iddo fentro ymlaen:

“Yr wyf yn galw'r nef a'r ddaear yn dystion yn dy erbyn heddiw, imi roi'r dewis i ti rhwng bywyd ac angau, rhwng bendith a mellthith. Dewis dithau fywyd, er mwyn i ti fyw, tydi a'th ddisgynyddion, gan garu'r Arglwydd dy Dduw a gwranddo ar ei lais a glynu wrtho....” (Deuteronomium 30: 19-20)

Ar sawl ystyr, mae'r argyhoeddiad a gawn gan yr Ysbryd i benderfynu ymddiried ein bywyd i'r Iesu yn gwestiwn syml – byw ynddo neu farw hebdo – ond mae'r gwaith o'n cael i ddewis bywyd yn gymhleth ofnadwy gan fod ein calonnau mor dwyllodrus. Beth am ddefnyddio heddiw i ymgysgru fel y gwnaeth Josua i 'wasanaethu'r Arglwydd' yn unig (Josua 24: 14-16) a gweddio am nerth yr Ysbryd i feddiannu holl fendithion gwlad yr Addewid sydd gennym yng Nghrist?

Darlleniad Wythnos Nesaf

Josua 24:13-15 (BCND tud.219 / BCN tud.200)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

Anwain

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 21^{ain} • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy, a bydd Aneurin yn pregethu.
- Mercher – 24^{ain} • **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
- lau – 25^{ain} • **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener – 26^{ain} • **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sul nesaf – 28^{ain} • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd Celfyn Williams yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 21^{ain} Bydd Mr Gwilym Tudur yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf – 28^{ain} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

- Sul yma – 21^{ain} Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Sul nesaf – 28^{ain} Bydd Gwion yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 21^{ain} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf – 28^{ain} Bydd Sarah yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 21^{ain} Bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf – 28^{ain} Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd yn Saron ac ym Mheniel am 10.00. Bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â gwasanaeth y bore yn Saron ac ym Mheniel am 2.00.

Cyhoeddiadau

Henllan a Groes

- Sul yma – 21^{ain} Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.
- Sul nesaf – 28^{ain} Bydd Mr Trebor Roberts yn arwain oedfa yn Henllan am 2.00 a'r Parch. John Lewis Jones yn arwain oedfa yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 21^{ain} Bydd Dr Andras Iago yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg ag oedfa'r bore yng Nghefn Berain.
- Sul nesaf – 28^{ain} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Derbyn yn Aelodau

Gair i'ch atgoffa ein bod yn dymuno gwybod faint o ieuenctid 15+ sydd â diddordeb i ddod i gyflwyniad syml i Gristnogaeth ac, os byddan nhw'n awyddus, i gael eu derbyn yn aelodau yn eu heglwys leol wedi hynny. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â Mair **cyn diwedd mis Chwefror**, os gwelwch yn dda, er mwyn inni gael penderfynu pryd fyddai'r amser gorau i gynnal y sesiynau.

Manylion Cyswllt

Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
Gwion – ✉ gwion@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07849 591163
Sarah – ✉ sarah@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07900 308461
Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.